

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail Gartrefi

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Ers Ebrill 2018 mae'r Cyngor wedi bod yn codi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Cyngor ar 3 Rhagfyr 2020 yn argymhell cadw lefel y Premiwm yn 50% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Cyflwynwyd gwelliant i'r cynnig hwn, sef bod y Cabinet yn ystyried ymgynghori ar cynyddu lefel y premiwm i hyd at 100%, ac fe'i basiwyd. Y ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, cytunodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Ar ôl ystyried materion perthnasol, gan gynnwys sefyllfa dai Gwynedd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Cabinet yn argymhell cynyddu lefel y Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor i 100% yn 2021/22.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg)

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

15 Rhagfyr 2020. Dechreuodd yr asesiad hwn ar ôl i'r Cabinet benderfynu y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn darganfod barn y cyhoedd ar y cynnig i newid graddfa'r Premiwm.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae gan y Cyngor y grym o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) i addasu lefel y Premiwm hyd at 100%. Fodd bynnag, mae'n ddisgwyliad echblyg i ni ymgynghori hefo'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gyda sylw wedi ei roi yn y wasg lleol ac ar wefannau cymdeithasol, ac ysgrifennodd y Cyngor at berchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm.

Y partneriaid a rhanddeiliaid allweddol oedd:

Trigolion Gwynedd
Trethdalwyr ar eiddo gwag ac ail gartrefi

Bu cydweithio gyda nifer o bartneriaid mewnol, e.e.:

Adran Cyllid
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd
Y Cyngor Llawn

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Rydym wedi ymdrechu i adnabod unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig gan fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i'r ymatebwyr ein hysbysu o unrhyw nodweddion gwarchoddedig fel bod modd ystyried rhain wrth ddatblygu'r polisi.

Roedd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac roedd yr holiadur ar gael i unrhyw un i'w lenwi ar-lein. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg yn codi ymwybyddiaeth ohono, a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Ysgrifennodd y Cyngor at bob aelwyd oedd yn destun y Premiwm gyda llythyr yn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Lle roedd y cyfeiriad gohebiaeth gwahanol wedi ei gofnodi yn y system Treth Cyngor, defnyddiwyd hwnnw. Roedd y llythyr yn cyfeirio at wefan y Cyngor a'r cyfle i lenwi'r holiadur yno, ond roedd gwefan y Cyngor yn nodi y gallai unrhyw un gysylltu gyda'r Cyngor os oeddynt yn dymuno derbyn copi papur o'r ymgynghoriad.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 22 Rhagfyr 2020 a 1 Chwefror 2021. Derbyniwyd 6,213 o ymatebion ar yr holiadur ffurfiol, yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig.

Roedd barn y rhai a atebodd wedi ei rannu, ond roedd dros 70% o'r rhai a ymatebodd yn erbyn cynyddu lefel y Premiwm. Yn gyffredinol, roedd perchnogion ail gartrefi yn arbennig yn gwrthwynebu'r bwriad i godi unrhyw bremiwm, tra fod cyfran sylweddol arall yn cefnogi codi premiwm o hyd at 100%.

Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Roedd nifer o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nodi eu bod yn berchen ar eu heiddo yng Ngwynedd ers sawl blwyddyn, ac yn hoff iawn o'r ardal. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rhai oedd yn ymateb yn honni fod cymhelliad hiliol tu ôl i'r bwriad i godi Premiwm gan fod y Cyngor yn erbyn pobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma.

Mae dau gategori gwahanol o eiddo sy'n destun y Premiwm, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Ychydig iawn o bobl sydd eisiau talu mwy o dreth, ac roedd gwrthwynebiad chwyrn gan berchnogion ail gartrefi yn arbennig. Mae'n sefyll i reswm byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith ariannol ar yr unigolion yma, ond ni welwyd dystiolaeth y byddai unrhyw grŵp gwarchoddedig yn cael eu heffeithio. Serch hynny, mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i'r ymholiad yn honni fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol, gwrth-Seisnig, er nad oes unrhyw wahaniaethu yn bodoli pan yn gosod y premiwm.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i'r Cyngor weithredu'n bositif tuag at rhai carfannau os oes tystiolaeth o angen ("cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill"). Mae sawl astudiaeth gan y Cyngor wedi adnabod fod problem yn bodoli gyda argaeledd tai i deuluoedd ifanc Gwynedd, felly rydym wedi adnabod problem ac yn cymryd camau i ddelio gyda hynny. Mae pobl ifanc wedi ei prisio allan o'r farchnad dai leol.

Ar 25 Tachwedd 2020, roedd:

- 4,718 eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
- 165 o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau statudol
- 811 eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol a na ellir codi Premiwm.

Ar yr un adeg, roedd 1,130 eiddo yn destun y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor

Astudiaeth Effaith Tai Gwyliau

Ystyriaeth allweddol gan y Cyngor wrth bleidleisio ar y gwelliant i ohirio'r penderfyniad ar godi premiwm yn 2021/22 oedd yr adroddiad manwl Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a gyflwynwyd i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2020:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Mae hyn yn dilyn astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn 2013.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod cyfanswm nifer y cartrefi gwyliau (ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar) o fewn Gwynedd yn parhau i gynyddu, ac yn gofyn am ymrwymiad y Cabinet i gymryd camau pendant i ymdrin â'r sefyllfa.

Mae'r astudiaeth yn ganlyniad gwaith ymchwil manwl sydd wedi cael ei gynnal dros y misoedd diwethaf, ac mae'n amlygu fod nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar stoc dai Gwynedd. Mae'n adeiladu ar astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal yn y gorffennol ac yn amlygu fod materion dybryd sy'n parhau angen sylw, a fod y sefyllfa o fewn cymunedau Gwynedd, yn enwedig y rhai sy'n denu ymwelwyr, yn dwysau.

Tra fod sgôp yr astudiaeth yn ymestyn i faterion cynllunio hefyd, rhoddir sylw blaenllaw i'r cymhelliad ariannol sydd yn bodoli o fod yn berchennog tŷ gwyliau yn ogystal â'r fantais trethiannol sy'n bodoli o fod yn cwrdd â'r trothwyon cyfreithiol ar gyfer trosglwyddo eiddo i'r gyfundrefn ardrethi annomestig (nid yw'r eiddo hyn yn destun y Premiwm).

Gwerth eiddo

Mae bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn gyffredinol uwch nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Yn Rhagfyr 2020, roedd 33.9% o ail gartrefi Gwynedd ym Mand Treth Cyngor E neu uwch, o'i gymharu â 21.5% o eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae bandiau eiddo gwag hir dymor yn is. Dim ond 17.8% o'r eiddo yma sydd yn mand E neu uwch.

Un o'r themâu oedd yn dod o'r ymgynghoriad oedd fod nifer o ail gartrefi yn gartref teuluol oedd wedi cael eu hetifeddu a'u cadw gan y teulu, neu fod yr eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu fel ail gartref ers nifer o flynyddoedd.

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Ar wahân i ymdeimlad rhai ymatebwyr fod Cyngor Gwynedd yn gyffredinol hiliol am ystyried codi'r Premiwm ac yna ei gynyddu, nid oes dystiolaeth wedi ei dderbyn i gefnogi hynny gan fod astudiaethau wedi cael eu cynnal sy'n awgrymu fod angen cymryd camau i weithredu i fynd i'r afael â phroblemau tai mewn ardaloedd gwledig o Wynedd.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur cydraddoldeb. Roedd hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o berchnogion ail gartrefi na'r boblogaeth gyffredinol yn bobl hŷn.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	Bwriad y polisi o godi premiwm yw i fynd i'r afael â'r sefyllfa nad oes tai ar gael i bobl leol, ac mae'r effaith yn bositif ar y garfan yma.
	Negyddol	<p>Bydd y polisi yn effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.</p> <p>Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg y bydd y polisi yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Serch hynny, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol, sy'n ddeilliant positif.</p>
Yr iaith Gymraeg	Positif	<p>Bydd effaith anuniongyrchol ar yr iaith gan mai pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Mae cynnyrch y Premiwm hyd yma wedi ei ddefnyddio i diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma.</p> <p>Yn benodol, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.</p>

Anabledd	Ansylweddol	Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd o oes rhywun sydd ag anabledd yn cadw eiddo sydd wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael gwyliau mewn man arall.
Rhyw	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Oedran	Positif	<p>Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hîn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynnaladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.</p> <p>Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (<i>Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England</i>) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn. Mae ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol wedi awgrymu yr un peth.</p> <p>Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hîn, ond disgwylir y bydd y bobl hîn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy.</p> <p>Serch hynny, mae tystiolaeth gryf fod darparwyr gofal yn wynebu trafferthion recriwtio dybryd. Mae sicrhau cydbwysedd cymunedol yn hollbwysig er mwyn cael digon o bobl ieuengach i warchod a rhoi gofal i bobl hîn, a bwriad y polisi o godi Premiwm ydi helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal leol trwy allu darparu cartrefi lleol iddynt. Ar y cyfan, felly, bydd y polisi yn cael effaith bositif gan ei fod yn helpu teuluoedd ifanc i gael cartref. Bydd hyn wedyn yn rhoi effaith mwy bositif na negyddol ar gydbwysedd cymunedol.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Ailbennu rhywedd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Bydd hyn yn rhoi cyfle cyfartal i bobl leol sy'n methu fforddio cartref ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa tai ar hyn o bryd yn anghyfartal a bwriad y penderfyniad ydi sefydlogi ac unioni'r sefyllfa yma.
Meithrin perthnasau da	Ydi	<p>Gall y polisi o godi Premiwm hyrwyddo perthnasau da gyda pobl o fewn cymunedau Gwynedd os ydi'r Polisi yn rhoi cyfle iddynt cael gwell cartref, neu gartref cyntaf, gan fod nifer y tai gwyliau ac anheddau gwag yn cael ei ganfod fel cael effaith andwyol ar allu pobl lleol i gael lle i fyw. Gall polisi o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag wella'r perthnasau os ydi trigolion Gwynedd yn teimlo fod y polisi'n gymorth iddynt fod â gwell cyfle i gael cartref yn eu hardal leol.</p> <p>Mae rhai perchnogion ail gartrefi wedi honni yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y bydd cynyddu lefel y Premiwm yn achosi drwg-deimlad cymunedol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i law gefnogi'r honiad yma. Mae'r anghyfartaledd presennol yn fwy tebygol o greu drwgdeimlad.</p>

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Un o prif ganlyniadau'r Premiwm ydi ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol o fewn Gwynedd. Mae'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'r camau positif iawn fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun, gyda chymorth ariannol y Premiwm:

[Microsoft Word - 0.2Aseiad Effaith Cydraddoldeb CGT.doc \(llyw.cymru\)](#)

Bwriad y Premiwm yw anelu i leihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd, ac mae'n cyfrannu at hynny drwy ariannu prosiectau penodol.

Mae manylion am aseiad o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gael yng nghorff yr adroddiad i'r Cabinet.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor.

Dylid nodi fod ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf fod perchnogion ail gartrefi yn dueddol o fod yn bobl hŷn. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod rhai o'r perchnogion hŷn yma yn "asset rich / cash poor". Hynny yw, maent wedi prynu'r eiddo ers sawl blwyddyn neu wedi ei etifeddu, ond nid yw eu hincwm o reidrwydd yn uchel. Mae hyn yn y pen draw yn codi gronyn o amheuaeth os yw'r Cyngor yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol, ond rhaid pwysu hynny yn erbyn y tlodi, diweithdra a digartrefedd sydd yng nghefn gwlad Gwynedd. Yn ôl y Cynllun Gweithredu Tai, mae 59% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd.

Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi datgan fod y Polisi yma yn un hiliol gan ei fod yn targedu unigolion sydd yn byw y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Premiwm yn cael ei godi ar bob eiddo sy'n ail gartref neu'n eiddo gwag hirdymor heb ystyried y perchnogaeth. Mae cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson, a byddai cynyddu'r Premiwm yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod hyn yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o wireddu gweithrediad gadarnhaol, sef mynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	✓

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

Mae honiad fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wunedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu Cynllun Gweithredu Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

Mae unigolion sydd o blaid ac yn erbyn codi'r Premiwm wedi mynegi anfodlonrwydd gyda'r un cwestiwn ar effaith y Premiwm ar yr economi (gan honni ei fod yn "arwain"), sy'n awgrymu fod y balans y cwestiynau yn gywir.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Mater gwleidyddol yn y pen draw yw lefel y Premiwm, wedi ei gymryd ar sail y dystiolaeth sydd i law. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng y gost ychwanegol i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor a'r cymhelliant cysylltiedig o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, yn erbyn y lles cymdeithasol fyddai'n deillio o'r gallu i wireddu cynlluniau penodol i fynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn y flynyddol ar gyfer gosod lefel y Premiwm. Bydd yr Adran Gyllid yn parhau i gadw golwg ar newidiadau ar statws eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac yn gweithredu fel bo'r angen i asesu os oes materion cydraddoldeb tu ôl i'r trosglwyddo i ardrethi annomestig.